Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llechryd
Ysgol Gynradd Gymunedol Llechryd
Llechryd
Aberteifi
SA43 2QL

**Dyddiad yr arolygiad: 7 Tachwedd, 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 6/12/2012**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Llechryd mewn ystafell ddosbarth yn Ysgol Gynradd Llechryd ger Aberteifi, Sir Ceredigion. Mae'r lleoliad yn rhannu'r defnydd o'r neuadd, ardaloedd chwarae tu allan a'r toiledau gyda'r ysgol.

Daw'r rhan fwyaf o'r plant sydd yn mynychu'r lleoliad o'r pentref. Bernir nad yw'r ardal at ei gilydd yn freintiedig nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant o ddwy i bedair oed am bum sesiwn yr wythnos yn ystod y tymor ysgol. Mae ar agor rhwng 9:00 a 11:30 o'r gloch y bore. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd saith plentyn tair oed ar y gofrestr yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Plant Ceredigion. Mae'r nifer o sesiynau a fynychir gan blant unigol yn amrywio yn ôl dewis rhieni. Saesneg yw prif iaith y cartref i'r holl blant. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn mynychu. Mae'r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae trefniadau cymorth priodol wedi'u gwneud.

Mae yna arweinydd ac ymarferwraig brofiadol yn darparu ar gyfer dysgu'r plant. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd ym mis Tachwedd 2010 ac mae ganddi gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Mae dwy ymarferwraig ychwanegol yn cynorthwyo dau blentyn ag anghenion addysgol arbennig.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Tachwedd 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r mwyafrif o'r plant yn gwneud cynnydd cyson o'u man cychwyn;
- mae'r holl blant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
- mae gan y rhan fwyaf o'r plant agweddau da at ddysgu;
- cynigir profiadau dysgu diddorol;
- mae'r addysgu'n dda ar y cyfan; ac
- mae'r plant yn derbyn gofal da mewn amgylchedd dysgu cynhwysol.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- rheolaeth gydwybodol y prif ymarferydd;
- gwaith tîm da;
- ymrwymiad yr ymarferwyr tuag at ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth;
- cynllun gwella pwrpasol sy'n cael ei weithredu'n briodol; a
- phartneriaeth fuddiol gyda'r ysgol gynradd, rhieni a'r gymuned sy'n cynorthwyo dysgu a lles y plant.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu, mae angen i'r lleoliad:

A1 gryfhau medrau dysgu'r plant yn arbennig eu medrau llafar a chyfathrebu Cymraeg;

A2 datblygu'r cynllunio a'r drefniadaeth i sicrhau bod tasgau yn ymestyn dysgu'r plant yn gyson, yn cynnwys y plant mwy galluog;

A3 cynllunio ac ehangu ymhellach y profiadau dysgu a drefnir yn yr ardaloedd allanol; a

A4 datblygu rôl y pwyllgor rheoli.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?** | **Da** |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r mwyafrif o'r plant yn gwneud cynnydd cyson o'u man cychwyn. Mae'r rhan fwyaf yn gallu cyfleu eu hanghenion yn Saesneg gyda'r mwyafrif yn siarad yn glir gan ddefnyddio ystod addas o eiriau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrando'n briodol yn ystod gweithgareddau grŵp. Maent yn deall cyfarchion, cyfarwyddiadau a chwestiynau yn y Gymraeg ond ymatebion byr iawn a gynigir ar lafar. Mae'r mwyafrif yn mwynhau edrych ar lyfrau ac yn eu trin yn gywir. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau mewn print. Maent

yn gwybod nifer dda o ganeuon a rhigymau ac yn eu hailadrodd yn gywir. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer marcio yn bwrpasol mewn ystod o gyfryngau. Mae ychydig o blant yn dechrau ysgrifennu eu henwau yn annibynnol a, gyda chymorth, yn cofnodi sylw byr ar eu lluniau a'u paentiadau.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd priodol o'u medrau rhif mewn gweithgareddau bob dydd. Mae bron pob un yn cyfrif i ddeg yn gywir. Mae'r mwyafrif yn adnabod ac yn deall gwerth rhifau i fyny at o leiaf tri. Mae'r plant mwy galluog yn deall ystyr termau megis mawr a bach, llawn a gwag, un arall, mewn sefyllfaoedd ymarferol. Gall y rhan fwyaf o'r plant greu a dilyn patrwm yn gywir a didoli gwrthrychau yn ôl siâp, maint a lliw. Mae'r mwyafrif yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol ac yn ymwybodol bod angen arian i brynu nwyddau yn siop ffrwythau'r lleoliad. Mae'r mwyafrif o'r plant yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sylfaenol yn briodol i symud gwrthrychau ar y sgrin, recordio rhai sylwadau, tynnu lluniau gyda chamera digidol a gosod cyfarwyddiadau syml i degan rhaglenadwy.

Mae medrau personol a chymdeithasol y plant yn datblygu'n dda. Mae'r holl blant yn gyfarwydd â threfn y sesiwn ac yn derbyn cyfrifoldebau, megis 'helpwr y dydd' a thacluso ar ôl gweithgareddau, yn hyderus.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd priodol o'u medrau datrys problemau mewn gweithgareddau megis adeiladu gyda blociau, cwblhau jig-sos a chwarae rôl. Maent yn trafod a defnyddio offer bach, megis brwshys paent, siswrn a rholbrenni, yn effeithiol. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau creadigol wrth gynhyrchu paentiadau amrywiol gan gynnwys efelychu gwaith arlunydd enwog. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau creu cerddoriaeth ac yn gwybod y gwahaniaeth rhwng synau isel ac uchel, araf a chyflym.

**Lles: Da**

Mae gan y mwyafrif o'r plant ymagweddau da tuag at ddysgu. Maent yn canolbwyntio'n briodol ac yn dyfalbarhau gyda'u gweithgareddau am gyfnodau addas o amser. Yn unol â'u gallu a'u cyfnod datblygu, mae llawer o blant yn awyddus i ymgymryd â phrofiadau newydd. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda.

Mae pob un o'r plant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad ac wedi ffurfio perthynas dda gyda phlant eraill. Nodwedd amlwg iawn yw'r gofal a chonsyrn mae plant yn dangos tuag at ei gilydd. Maent yn hapus yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth.

Mae llawer o'r plant yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Deallant hefyd bwysigrwydd golchi dwylo cyn bwyta byrbrydau.

Mae lefelau presenoldeb a phrydlondeb yn gyffredinol dda. Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy brofiadau megis ymuno mewn gweithgareddau gyda'r ysgol gynradd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau diddorol i'r plant. Seilir y gweithgareddau ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Defnyddir fframweithiau, sydd wedi'u cysylltu'n briodol â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth. Caiff y plant gyfleoedd addas i gyfrannu at y cynllunio. Nid yw'r gweithgareddau, fodd bynnag, wedi'u strwythuro'n ddigonol bob amser i ymestyn medrau'r plant, yn cynnwys y rhai mwy galluog.

Mae'r ddarpariaeth ddyddiol yn cynnig cyfleoedd addas ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a medrau ehangach y plant ar draws y cwricwlwm. Rhoddir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio'u medrau cyfathrebu Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Yn ystod sesiynau grŵp, mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant wrando ar storïau, trafod pynciau gwahanol, ymuno mewn caneuon a rhigymau a defnyddio eu medrau marcio. Mae'r sylw a roddir i atgyfnerthu geirfa a phatrymau braweddegol sylfaenol yn fwy anwastad.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae cyfleoedd addas hefyd iddynt ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gŵyl Diwali.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant ddysgu am gynaliadwyedd a phwysigrwydd gofalu am bopeth byw. Maent yn cynnwys tyfu a gofalu am blanhigion, ymweld â chanolfan anifeiliaid, a chymryd rhan mewn gweithgareddau ailgylchu a chompostio.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Defnyddiant ystod o ddulliau addysgu sy'n llwyddo i ennyn diddordeb ac ymglymiad y rhan fwyaf o'r plant yn eu dysgu. Caiff y gweithgareddau eu paratoi yn drylwyr a gwneir defnydd effeithiol o adnoddau dysgu. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd da o gwestiynu i gadarnhau dysgu'r plant. Ni wneir defnydd llawn o'r ardaloedd allanol ar gyfer darparu ystod o weithgareddau i hybu medrau'r plant ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r berthynas agos rhwng yr ymarferwyr a'r plant yn annog pob plentyn i gymryd rhan a mwynhau. Rheolir ymddygiad yn effeithiol mewn ffordd gadarnhaol.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn medru trafod eu datblygiad cyffredinol yn fanwl. Maent yn arsylwi ar gynnydd ac ymateb y plant yn rheolaidd ac yn cofnodi eu harsylwadau. Defnyddir y wybodaeth yn addas i adnabod targedau byr dymor i'r plant. Yn ystod gweithgareddau, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn derbyn y cymorth angenrheidiol. Mae'r ymarferwyr wedi dechrau casglu

enghreifftiau o waith y plant mewn ffolderi personol sy'n gofnod defnyddiol o'u datblygiad.  Caiff rhieni eu hysbysu am gyflawniadau a lles eu plant yn anffurfiol a thrwy adroddiadau priodol.  Mae'r gweithdrefnau trosglwyddo yn cynnwys ymweliadau buddiol gan y plant â'u dosbarth newydd yn yr ysgol gynradd a thrafodaethau rhwng y staff.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae trefniadau effeithiol mewn lle i gefnogi iechyd a lles y plant.  Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar  sy'n cyfrannu'n arwyddocaol tuag at les y plant.  Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n darparu mynediad llawn iddynt at bob maes dysgu.  Mae'r llinellau cyfathrebu eglur gydag asiantaethau allweddol yn sicrhau bod cyngor a chymorth proffesiynol ar gael i'r plant, rhieni a staff yn ôl yr angen.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.  Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'r gofynion.  Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.  Hyrwyddir gwerthoedd fel tegwch, caredigrwydd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir drwy'r cwricwlwm a'r gweithgareddau dyddiol.  Mae profiadau, megis dathliadau diolchgarwch, bedydd a'r Nadolig, yn cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygiad ysbrydol y plant.  Mae'r ymweliadau, a'r cyfleoedd i ymuno mewn rhai dathliadau gyda disgyblion yr ysgol gynradd yn cyfrannu'n ymhellach at eu datblygiad cymdeithasol.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir.  Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon.

Mae nifer digonol o ymarferwyr sy'n meddu ar brofiad perthnasol.  Mae'r ystafell ddosbarth o faint digonol a gwneir defnydd llawn o'r lle sydd ar gael.  Mae'r arddangosfeydd a samplau o waith y plant o amgylch yr ystafell yn cyfrannu at greu amgylchedd lliwgar a deniadol.  Nid oes toiledau ar wahân gan y lleoliad ond mae trefniadau  derbyniol mewn lle i rannu cyfleusterau'r ysgol gynradd.  Ceir adnoddau digonol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain yn effeithiol gan arweinydd cydwybodol. Mae'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn rhannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu a lles plant. Mae arferion dyddiol wedi'u sefydlu ac yn sicrhau rhediad esmwyth i'r sesiynau. Mae polisïau addas yn weithredol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnig cefnogaeth gyson i'r lleoliad. Mae gan yr aelodau ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd ac maent yn gweithio'n galed i godi arian. Mae eu rôl mewn prosesau arfarnu a blaengynllunio yn dechrau datblygu. Mae'r person cofrestredig yn cynnig cefnogaeth a chymorth o ansawdd da. Trwy ymweliadau a thrafodaethau rheolaidd gyda'r prif ymarferydd, mae ganddi wybodaeth fanwl o anghenion y lleoliad. Mae trefniadau priodol i werthuso gwaith yr ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith Gymraeg y plant a sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol gynradd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr o brif gryfderau'r lleoliad ac o rai agweddau sydd angen gwelliant. Maent yn cyd-drafod yn rheolaidd ac yn agored i syniadau newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu a baratowyd gan y prif ymarferydd a'r athrawes ymgynghorol yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun gwella sydd wedi deillio o hyn yn adnabod meysydd addas ar gyfer datblygiad. Mae'r cynllun yn cael ei weithredu'n briodol a gwna'r prif ymarferydd sylwadau addas ar y cynnydd a wneir. Yn ychwanegol, cynhelir arfarniad blynyddol o'r cynllun gyda chymorth y person cofrestredig a'r athrawes ymgynghorol, sydd yn sicrhau bod y blaenoriaethau yn adlewyrchu gofynion cyfredol y lleoliad.

Caiff y ddarpariaeth ei fonitro'n gyson gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Cytunir ar agweddau addas i gael sylw a rhoddir strategaethau priodol ar waith. Ceisir barn rhieni a thrafodir agweddau ar y ddarpariaeth ymhellach gyda phennaeth yr ysgol gynradd a swyddog Mudiad Meithrin.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas mewn agweddau ar ddatblygiad a gofal plant a gwnânt ddefnydd addas o'r hyfforddiant a geir. Mae rhai cyfleoedd i'r ymarferwyr gyd-drafod a rhannu syniadau gydag ymarferwyr a lleoliadau eraill yn ystod dyddiau hyfforddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad nodau ac amcanion clir sy'n cael eu rhannu gyda'r partneriaid.

Mae perthynas dda gyda'r rhieni a darperir gwybodaeth berthnasol iddynt drwy'r hysbysfwrdd, pamffledi a chylchlythyron. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gyfarfod gyda'r rhieni ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae'r bartneriaeth adeiladol gyda'r person cofrestredig, y pwyllgor rheoli, yr athrawes ymgynghorol a swyddog Mudiad Meithrin yn cynorthwyo gwaith y lleoliad. Mae'r berthynas waith agos gyda'r ysgol gynradd yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ac yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau agos gyda'r gymuned. Gwneir defnydd addas o ymweliadau ac o gyfraniad pobl o'r gymuned leol i rannu eu profiadau gyda'r plant. Mae'r defnydd o'r cysylltiadau gydag asiantaethau a mudiadau lleol yn cyfrannu'n adeiladol at ddatblygiad a lles y plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli'n effeithiol. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a gwneir defnydd da o amser a phrofiad yr ymarferwyr. Gwna'r prif ymarferydd ddefnydd addas o'r amser di gyswllt a ddarperir ar gyfer cynllunio a pharatoi. Mae adnoddau yn cael eu trefnu'n effeithiol i gefnogi'r profiadau dysgu.

Mae gan y prif ymarferydd ddealltwriaeth dda o'r gyllideb ac mae'n blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd rheolaidd o ymgyrchoedd codi arian ac o grantiau i ychwanegu at y cyflenwad o adnoddau. Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau a chymryd rhan ymhob gweithgaredd.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |